



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd

SWYDD DDISGRIFIAD

Teitl y Swydd:	Cyfieithydd
Adran:	Yr Uned Gymraeg
Lleoliad:	Campws Cyncoed
Gradd:	4A/B
Cyflog:	£23,386 - £27,864 y flwyddyn
Deiliadaeth:	Cyfnod penodol tan 01 Medi 2020, neu hyd nes y bydd deiliad y swydd yn dychwelyd, pa ddyddiad bynnag yw 'r cynharaf
Oriau:	37 awr yr wythnos

Crynodeb o'r swydd:

Rheoli gwasanaeth cyfieithu Met Caerdydd a darparu cymorth gweinyddol i Uned y Gymraeg.

Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:

1. Cyfieithu amrywiaeth o ddeunyddiau i safon heb ei hail ar gyfer Met Caerdydd a fydd yn cynnwys deunyddiau cymhleth, hynod fanwl a/neu arbenigol yn aml.
2. Golygu a phrawfddarllen fersiynau Cymraeg o gyhoeddiadau a gwefan y Brifysgol
3. Gwneud gwaith rheoli prosiect wrth drefnu i gyfieithu'r holl ddogfennau sy'n ofynnol drwy weithio gyda chronfa o gyfieithwyr allanol
4. Gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol er mwyn sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu'r Brifysgol o'r radd flaenaf ac yn ymateb i anghenion y Brifysgol
5. Deall y gofynion o ran yr iaith Gymraeg ar gyrff cyhoeddus yn unol â deddfwriaeth berthnasol (Mesur yr Iaith Gymraeg 2011)
6. Darparu canllawiau cyson i bob aelod o staff ynghylch y ddyletswydd sydd ar y Brifysgol o dan y cyfryw ddeddfwriaeth drwy lunio a diweddarau Canllawiau ar Gyfieithu a thrwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb rheolaidd

7. Monitro effeithiolrwydd y gronfa o gwmnïau cyfieithu allanol ar sail ansawdd, amser a chost y cyfieithiadau gan sicrhau bod Met Caerdydd yn defnyddio'r cyfieithwyr gorau yn unig
8. Rhoi mecanweithiau ar waith i sicrhau bod yr holl gyfieithiadau a gynhrychir o safon uchel.
9. Llunio adroddiadau ar effeithiolrwydd y gwasanaeth cyfieithu gyda'r nod o wella'r gwasanaeth yn barhaus
10. Creu cronfa ddata o derminoleg i Met Caerdydd
11. Cynghori staff Met Caerdydd a chyrrff allanol yn rheolaidd ar y defnydd cywir o derminoleg Cymraeg
12. Rhoi system Cof Gyfieithu ar waith ledled y Brifysgol
13. Darparu hyfforddiant i staff Met Caerdydd ar ddefnyddio'r system hon ar ôl ei sefydlu
14. Llunio cynnwys cyfrwng Cymraeg ar gyfer cyfathrebu corfforaethol e.e. Gwefan Met Caerdydd, Cyhoeddiadau Corfforaethol a'r cyfryngau cymdeithasol
15. Sicrhau bod cynnwys cyfrwng Cymraeg yn atgyfnerthu brand/gwerthoedd brand Met Caerdydd, a bod ganddo gywair, diwyg a naws cyson.
16. Rheoli'r calendr cynnwys er mwyn sicrhau bod y cynnwys perthnasol yn cael ei gyflwyno yn Gymraeg ar yr adeg iawn ac i'r safon briodol e.e. Adolygiad Blynyddol, Rhaglen Graddio
17. Cynghori adrannau mewnol ar ofynion y Gymraeg er mwyn sicrhau bod cysondeb ymhob deunydd cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg
18. Adrodd ar gynnydd cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn erbyn y targedau sydd yng Nghynllun Iaith Gymraeg Met Caerdydd
19. Delio â cheisiadau am wasanaeth cyfrwng Cymraeg gan Met Caerdydd yn electronig, wyneb yn wyneb neu dros y ffôn
20. Cynrychioli'r Brifysgol mewn digwyddiadau cyfrwng Cymraeg
21. Trefnu cyfieithu ar y pryd ar gyfer digwyddiadau Met Caerdydd
22. Gweinyddu ymrwymïadau'r Brifysgol sy'n ymwneud a darpariaeth cyfrwng Cymraeg, yn cynnwys darparu swyddogaethau ysgrifenyddiaeth.

Gwybodaeth Atodol:

Hysbysiad Safonol

Rhoddir y canllawiau hyn i'ch helpu i gyflawni eich contract. Mae'r brifysgol yn sefydliad dynamig; felly efallai y bydd angen gwneud newidiadau o bryd i'w gilydd. Gwneir unrhyw newidiadau mewn ymgynghoriad â deiliad y swydd. Ni fwriedir i'r Crynodeb o Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau fod yn rhestr gaeth o dasgau a gyflawnir. Mae'n debygol y caiff tasgau technegol cysylltiedig eraill eu cyflawni yn ôl cyfarwyddiadau'r rheolwr llinell.

Derbynnir y bydd gan staff unigol sgiliau a gwybodaeth arbenigol mewn perthynas â'r rôl y'u penodir iddi. Yn ogystal â hyn, mae'r Brifysgol yn disgwyl i bob aelod staff ymddwyn mewn ffordd broffesiynol a chwrtais bob amser a chyflawni eu cyfrifoldebau yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Cydraddoldeb, Ariannol, Adnoddau Dynol ac Iechyd a Diogelwch y Brifysgol



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd

MANYLEB PERSON

Swydd: Cyfieithydd

Uned/Ysgol: Yr Uned Gymraeg

*Allwedd
Ff - Ffurflen
gais
C - Cyfweliad
P/C - Prawf/Cyflwyniad

FFACTORAU	MEINI PRAWF HANFODOL A DYMUNOL	ASESIR YN ÔL		
		Ff*	C*	P/C*
Addysg a Chymwysterau (Hanfodol)	Addysg i lefel gradd neu gymhwyster cyfieithu priodol	X		
Addysg a Chymwysterau (Dymunol)	Cymhwyster cyfieithu	X		
	Cymhwyster Rheoli Prosiectau	X		
Gwybodaeth (Hanfodol)	Gwybodaeth am ofynion arbenigol cyfieithu deunyddiau	X	X	
	Gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion yn ymwneud ag ansawdd a safon cyfieithiadau	X	X	
	Gwybodaeth am ddeddfwriaeth berthnasol yn ymwneud a'r iaith Gymraeg	X		
	Gwybodaeth am y dyletswyddau sydd gan gyrff cyhoeddus o dan ddeddfwriaeth iaith Gymraeg gyfredol	X	X	
	Dealltwriaeth o weithdrefnau a phrosesau gweinyddol swyddfa	X		
	Dealltwriaeth o sut i gymhwyso technoleg gwybodaeth mewn amgylchedd swyddfa	X		
Gwybodaeth (Dymunol)	Cynhyrchu gwefannau dwyieithog	X		
	Meddalwedd cyfieithu cyfoes	X		

Sgiliau a Galluoedd (Hanfodol)	Y gallu i gynhyrchu canllawiau i bob aelod o staff ar sail y ddeddfwriaeth iaith Gymraeg gyfredol	X		
	Y gallu i gyfleu gofynion cyfieithu i staff ar ffurf canllawiau ysgrifenedig ac mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb rheolaidd	X	X	
	Y gallu i greu cyfieithiadau ysgrifenedig, cymhleth ac arbenigol i safon uchel a phrawfddarllen a golygu dogfennau	X	X	
	Y gallu i greu a gweithredu mecanweithiau sicrhau ansawdd ar gyfer cyfieithiadau allanol a mewnol	X	X	
	Sgiliau iaith Gymraeg a Saesneg rhagorol, yn llafar ac yn ysgrifenedig	X	X	
	Sgiliau bysellfwrdd a'r gallu i ddefnyddio pob math o becynnau TG yn cynnwys Word ac Excel	X		
	Sgiliau rhyngpersonol gwyb	X	X	
	Y gallu i drefnu a blaenoriaethu amrywiol ddarnau o waith prosiect er mwyn cadw at y terfynau amser	X		
	Y gallu i weithio o'ch pen a'ch pastwn eich hun ac fel rhan o dîm	X		
	Y gallu i weithio'n dda heb fawr o oruchwyliaeth Sgiliau cadw cofnodion	X		
	Y gallu i greu cynnwys gyda'r gynulleidfa darged mewn golwg	X		
	Sylw i fanylder	X		
	Agwedd drefnus a hyblyg at y gwaith	X		
Sgiliau a Galluoedd (Dymunol)	Sgiliau golygu'r we	X		
	Sgiliau cyfieithu ar y pryd	X		
	Y gallu i ysgrifennu copi Cymraeg	X		

Profiad â thâl / heb dâl (Hanfodol)	Cyfieithu deunyddiau (Saesneg i Gymraeg - Cymraeg i Saesneg)	X	X	
	Rheoli prosiectau cyfieithu	X	X	
	Cynnal a diweddarau systemau a phrosesau gweinyddol	X	X	
	Creu adroddiadau monitro a chanllawiau	X	X	
	Cynghori amrywiaeth o unigolion ar ddeddfwriaeth gyfredol sy'n ymwneud â'r Gymraeg	X	X	
	Cynghori amrywiaeth o unigolion ar ofynion cyfieithu'r sector cyhoeddus yng Nghymru	X	X	
	Cynhyrchu cyfathrebu arloesol a chraff	X	X	
Cynghori amrywiaeth o unigolion ar y ffordd gyfredol o gyfathrebu'n briodol	X	X		
Profiad â thâl / heb dâl (Dymunol)	Trefnu cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd a chynadleddau	X		
Gofynion Eraill (Hanfodol)	Ymrwymiad i'r Iaith Gymraeg	X	X	
Gofynion Eraill (Dymunol)				